# Cerdyn Gofalwr Ceredigion

## Cwestiynau Cyffredin / Nodyn Canllawiau

Mae'r Cerdyn Gofalwr yn gerdyn adnabod sy'n cynnwys llun, a gyhoeddir gan Gyngor Sir Ceredigion i Ofalwyr sy'n 18 oed a throsodd, sydd wedi cofrestru gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Cyngor Sir Ceredigion ac sy'n gofyn am gael cerdyn Gofalwr.

Rhoddir Cerdyn Gofalwr Ifanc i Ofalwyr 18 oed ac iau sy'n gofyn am gerdyn. Rydym yn lansio Cerdyn Gofalwr Ifanc ar 2 Tachwedd.

Mae'r Cerdyn Gofalwr yn cadarnhau bod yr unigolyn a ddangosir ar y cerdyn yn Ofalwr a bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.

## Ar gyfer pwy y mae'r Cerdyn Gofalwr?

Mae'r Cerdyn Gofalwr ar gyfer Gofalwyr. Mae Gofalwr yn rhywun sy'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu, nad ydynt yn gallu ymdopi ar eu pen eu hunain oherwydd bod ganddynt anabledd, salwch corfforol neu feddyliol neu eu bod yn cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau neu alcohol.

Nid yw'r Cerdyn Gofalwr ar gyfer gweithwyr gofal sy'n darparu gofal i bobl fel eu gwaith am dâl.

## Beth yw diben y Cerdyn Gofalwr?

Lansiwyd y Cerdyn Gofalwr er mwyn ymateb i geisiadau gan Ofalwyr yn ystod pandemig Covid-19. Yn ystod misoedd cynnar y pandemig, roedd nifer o Ofalwyr wedi cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ofyn am rywbeth y gallent ei ddefnyddio i brofi eu bod yn gofalu am rywun. Mae'r Cerdyn Gofalwr yn dangos bod deiliad y cerdyn yn Ofalwr.  Gallwch ddefnyddio'r cerdyn i ddangos bod gennych chi gyfrifoldebau gofalu.

## Rydw i'n Ofalwr, felly a oes yn rhaid i mi wneud cais am Gerdyn Gofalwr?

Nac oes, nid oes yn rhaid i chi wneud cais am Gerdyn Gofalwr os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Eich dewis chi ydyw.

## Sut allaf i gael Cerdyn Gofalwr?

Gallwch wneud cais am Gerdyn Gofalwr trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Bydd angen i chi lanlwytho llun o'ch hun i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Ymgeisiwch am Gerdyn Gofalwr yma:
www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr

Gallwch hefyd wneud cais am Gerdyn Gofalwr trwy lenwi'r ffurflen gais y gellir ei lawrlwytho o wefan Cyngor Sir Ceredigion: www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr. Gallwch ddychwelyd y ffurflen gais mewn neges e-bost neu yn y post. Bydd angen i chi bostio neu e-bostio llun o'ch hun hefyd i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Os byddwch yn postio llun o'ch hun, rhaid i chi nodi'ch enw a'ch dyddiad geni ar gefn y llun.

## Pwy ddylwn i gysylltu â nhw os byddaf yn ei chael hi'n anodd, neu os bydd angen help arnaf i wneud cais am Gerdyn Gofalwr Ceredigion?

Os nad ydych chi'n gallu troi at y rhyngrwyd er mwyn gwneud cais ar-lein am y Cerdyn Gofalwr neu os bydd angen help arnoch wrth wneud cais am y Cerdyn Gofalwr, gallwch ffonio Cyngor Sir Ceredigion ar **01970 633564** gan ofyn am help. Gallwch anfon e-bost at yr Uned Gofalwyr hefyd, unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk er mwyn gofyn am help. Wrth anfon neges e-bost, nodwch eich rhif ffôn hefyd er mwyn i ni allu datrys y mater yn gyflym.

## Mae gen i Gerdyn Argyfwng Gofalwr yn barod, a yw'r cerdyn hwn yn ei ddisodli?

Nid yw'r Cerdyn Gofalwr yn disodli'r Cerdyn Argyfwng Gofalwr ar hyn o bryd, ond gallai hyn newid yn y dyfodol.

Os nad oes gennych chi Gerdyn Argyfwng Gofalwr neu gynllun wrth gefn, cysylltwch â Phorth Gofal Gofal Cymdeithasol ar **01545 574000** am ragor o wybodaeth.

## Ble fyddaf yn gallu defnyddio fy Ngherdyn Gofalwr?

Y gobaith yw y byddwch yn gallu defnyddio'r Cerdyn Gofalwr i fanteisio ar slotiau dosbarthu neu amseroedd siopa blaenoriaeth rhai o'r archfarchnadoedd os cyflwynir cyfyngiadau symud unwaith eto oherwydd Covid-19. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, trowch at www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr ffoniwch Cyngor Sir Ceredigion ar 01970 633564.

## A oes unrhyw ostyngiadau neu fuddion ar gael?

Mae'r Cerdyn Gofalwr yn rhywbeth newydd yng Ngheredigion, ac rydym yn gweithio gyda busnesau lleol a sefydliadau eraill i nodi'r buddion a'r gostyngiadau y bydd cael

Cerdyn Gofalwr yn eu cynnig i chi. Byddwn yn rhoi diweddariad i chi trwy'r wefan a'r Cylchgrawn i Ofalwyr pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, trowch at [www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr](http://www.ceredigion.gov.uk/cerdyngofalwyr) ffoniwch Cyngor Sir Ceredigion ar 01970 633564.

## A oes angen fy mod yn byw gyda'r unigolyn yr wyf yn gofalu amdanynt er mwyn gwneud cais am Gerdyn Gofalwr?

Nac oes, nid oes yn rhaid eich bod yn byw gyda'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdanynt. Rhaid eich bod chi neu'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdanynt yn byw yng Ngheredigion.

## A oes angen i mi fod yn aelod o Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Ceredigion er mwyn gwneud cais am Gerdyn Gofalwr?

Oes, mae angen i chi fod yn aelod o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr er mwyn gwneud cais am Gerdyn Gofalwr. Gallwch ymuno â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr pan fyddwch yn gwneud cais am y cerdyn.

## Nid ydw i'n cael Lwfans Gofalwr, a ydw i'n gallu gwneud cais am y cerdyn?

Ydych, rydych yn gallu gwneud cais am Gerdyn Gofalwr hyd yn oed os nad ydych yn cael Lwfans Gofalwr.

## A yw'r Cerdyn Gofalwr ar gael am ddim?

Ydy, mae'r Cerdyn Gofalwr ar gael yn rhad ac am ddim.

## Nid ydw i'n byw yng Ngheredigion ond mae'r unigolyn yr wyf yn gofalu amdanynt yn byw yng Ngheredigion, felly a ydw i'n gallu gwneud cais am y Cerdyn Gofalwr?

Gallwch wneud cais am y Cerdyn Gofalwr os ydych chi neu'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdanynt yn byw yng Ngheredigion.

## Mae Gofalwyr eraill yn fy aelwyd, a oes modd rhoi un cerdyn i aelwyd neu deulu?

Nac oes, rhaid i bob Gofalwr sy'n dymuno cael cerdyn wneud cais am eu cerdyn eu hunain.

## Rydw i'n byw ar ffin Ceredigion, yn Sir Gaerfyrddin neu yn Sir Benfro, yn yr un modd â'r unigolyn yr wyf yn gofalu amdanynt, ond rydym yn defnyddio gwasanaethau yng Ngheredigion ac yn siopa yng Ngheredigion.  A ydw i'n gallu gwneud cais am Gerdyn Gofalwr?

Yn anffodus, nid ydych yn gallu gwneud cais am Gerdyn Gofalwr yng Ngheredigion gan bod yn rhaid i chi neu'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdanynt fod yn byw yng Ngheredigion er mwyn gwneud cais am Gerdyn Gofalwr.  Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda Chynghorau Sir Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, manwerthwyr a darparwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cardiau sydd gan Ofalwyr ar draws rhanbarth Hywel Dda yn cael eu cydnabod yn yr un modd yn y dyfodol, a bod deiliaid cardiau yn gallu manteisio ar yr un buddion.  Mawr obeithiwn y byddwn yn sicrhau cytundeb pawb i ddweud, os bydd gennych chi Gerdyn Gofalwr a gyhoeddwyd gan Gynghorau Sir Sir Benfro neu Sir Gaerfyrddin, y byddwch yn gallu manteision ar yr un buddion yng Ngheredigion ac y gall Gofalwr sy'n dal Cerdyn Gofalwr a gyhoeddwyd yng Ngheredigion, ac i'r gwrthwyneb.

## Beth os nad wyf yn gofalu am rywun mwyach?

Os bydd eich rôl gofalu wedi dod i ben, rhaid i chi hysbysu Cyngor Sir Ceredigion o'r ffaith nad ydych yn Ofalwr mwyach.  Gallwch barhau i ddefnyddio'r cerdyn am 3 mis pellach, yna bydd yn rhaid dychwelyd y cerdyn i Gyngor Sir Ceredigion.

## Mae Gofalwyr eraill yn fy aelwyd, a oes modd rhoi un cerdyn i aelwyd neu deulu?

Nac oes, rhaid i bob Gofalwr sy'n dymuno cael cerdyn wneud cais am eu cerdyn eu hunain.

## Faint o amser y bydd fy Ngherdyn Gofalwr yn ei gymryd cyn fy nghyrraedd?

Byddwn yn anfon eich cerdyn atoch yn y post, ac fe ddylai gyrraedd cyn pen 21 diwrnod gwaith.

## Am ba mor hir y mae'r Cerdyn Gofalwr yn ddilys?

Mae'r Cerdyn Gofalwr yn ddilys am 2 flynedd a'ch cyfrifoldeb chi fel deiliad y cerdyn yw ei adnewyddu.

## Beth yw amodau a thelerau y cerdyn?

- Darparir y Cerdyn Gofalwr i Ofalwyr di-dâl sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sy'n byw yng Ngheredigion neu sy'n gofalu am rywun sy'n byw yng Ngheredigion.
- Mae'r Cerdyn Gofalwr ar gael i aelodau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr.
- O bryd i'w gilydd, gall Cyngor Sir Ceredigion ofyn i'r sawl sy'n ymgeisio am Gerdyn Gofalwr ddarparu tystiolaeth o'i rôl fel gofalwr, er enghraifft llythyr dyfarniad Lwfans Gofalwr, llythyr oddi wrth feddyg neu unrhyw dystiolaeth briodol arall.
- Mae'r Cerdyn Gofalwr yn ddilys am 2 flynedd o'i ddyddiad cyhoeddi. Y gofalwr sy'n gyfrifol am wneud cais i Gyngor Sir Ceredigion i adnewyddu'r cerdyn.
- Rhaid cydymffurfio â'r amodau a thelerau hyn er mwyn defnyddio'r cerdyn.
- Rhaid i ofalwyr y mae eu rôl gofalu wedi dod i ben hysbysu Cyngor Sir Ceredigion o'r ffaith nad ydynt yn Ofalwr mwyach, ond gallant barhau i ddefnyddio'r cerdyn am 3 mis pellach, yna bydd yn rhaid iddynt ddychwelyd y cerdyn i Gyngor Sir Ceredigion.
- Mae manylion adnabod ffotograffig ar Gardiau Gofalwyr, ynghyd â chyfeirnod a dyddiad dod i ben. Defnyddir y Cerdyn Gofalwr at ddibenion adnabod a dylid ei ddefnyddio gan ddeiliad y cerdyn ar y cyd ag unrhyw ostyngiad neu wasanaeth a gynigir yn unig.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw'r hawl i newid ymddangosiad ac amodau'r Cerdyn Gofalwr, neu derfynu'r Cynllun Cerdyn Gofalwr ar unrhyw adeg.
- Os ydych chi wedi colli eich Cerdyn Gofalwr, cysylltwch â Chyngor Sir Ceredigion ar 01970 633564 a bydd modd anfon cerdyn newydd atoch. Efallai y codir tâl bach am anfon cardiau newydd.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadw'r hawl i newid amodau a thelerau'r cytundeb hwn ar unrhyw adeg. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o leiaf 30 diwrnod cyn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath, gan roi manylion i chi am y newidiadau a wnaethpwyd.

## Canllawiau ar gyfer ffotograffau

A fyddech cystal â lanlwytho llun (ffoto o'r pen a'r ysgwyddau) o ansawdd da ohonoch eich hun i'w ddefnyddio ar y cerdyn. Gallwch ofyn i aelod o'r teulu neu ffrind i gymryd llun ar ffôn neu ddyfais arall. Ni ddylai maint eich llun fod dros 2MB os ydych yn ei lanlwytho ar-lein.

Os nad ydych yn gallu lanlwytho eich llun, anfonwch lun mewn neges e-bost at unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch Cyngor Sir Ceredigion ar 01970 633564 i gael help wrth gyflwyno llun.

Gallwch bostio llun neu anfon llun mewn neges e-bost, gan ddefnyddio manylion y cyfeiriadau a nodir ar ddiwedd y ffurflen hon. Os byddwch yn postio llun, rhaid i chi nodi'ch enw a'ch dyddiad geni ar gefn eich llun.

Dylai'r llun:

- fod yn llun lliw a dynnwyd yn ddiweddar
- bod yn llun ohonoch chi yn unig (dim pobl arall nac anifeiliaid anwes)
- bod wedi cael ei dynnu yn erbyn cefndir golau
- eich dangos chi yn wynebu ymlaen a dylai'ch pen a'ch ysgwyddau fod yn y llun
- dangos eich wyneb llawn
- eich dangos chi yng nghanol y llun
- os ydych chi'n gwisgo sbectol, dylai ddangos eich llygaid yn glir, gan osgoi llewych ar y lensys

Dylech fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau canlynol.

Ni ddylech:

- wisgo het neu orchudd pen oni bai bod hynny am resymau meddygol neu grefyddol
- cyflwyno llun lle y mae'r llygaid yn goch
- cyflwyno llun lle yr ydych chi yn y pellter neu lle y mae modd gweld pobl arall
- cyflwyno delweddau amhriodol neu anweddus
- cyflwyno llun yr ydych chi wedi'u olygu er mwyn newid eich ymddangosiad neu sy'n defnyddio hidlydd
- cyflwyno delwedd o rywun arall neu ddelweddau wedi'u diogelu gan hawlfraint

Fformat y ffeil

Dylai'r ddelwedd fod yn ffeil .jpg neu jpeg a dylai fod yn llai nag 2MB.

## Mae gennyf rai cwestiynau eraill, pwy ddylwn i gysylltu â nhw?

Gallwch gysylltu ag Uned Gofalwyr Cyngor Sir Ceredigion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir isod am ragor o wybodaeth:

Uned Gofalwyr

Ffôn: 01970 633564
Ebost: unedgofalwyr@ceredigion.gov.uk

Post: Uned Gofalwyr
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE